Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 12 MAI 2015 am 3.00 o'r gloch | | TUESDAY, 12 MAY, 2015 at 3.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Mawrth, 2015.

4 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 9 - 10)

I ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

5 **LLYS LLEWELYN, ABERFFRAW**

Derbyn adroddiad llafar gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, Menter Môn a Swyddogion y Cyngor Sir.

6 **DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

7 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, W T Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones, Richard Owain Jones a Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes) (Eitem 7)<br>Pennaeth Amgylcheddol a Thechnegol (Eitem 6)<br>Swyddog Sgriwtini (GWR)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd R. Thomas<br><br>Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd Ieuan Williams<br>Mr. Gerallt Ll. Jones – Menter Môn. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr T. V. Hughes, Llinos M. Huws, R. M. Jones (ar gyfer eitem 4).<br><br>Uwch Reolydd Partneriaeth (Gwynedd a Môn) (AD) (Eitem 4)<br>Rheolwr Darparu Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (CR) (Eitem 5)<br>Yr Arolygwr Mark Amstrong (Eitem 5)<br><br>Mr. John R. Jones – Medrwn Môn |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd W. T. Hughes ddiddordeb yng nghyswllt Eitem 6 oherwydd ei fod yn byw ger yr A5025.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2015.

**4 MESUR LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Uwch Reolydd Partneriaeth (Gwynedd ac Ynys Môn) mewn perthynas â'r uchod.

Rhoddodd yr Uwch Reolydd Partneriaethau gyflwyniad i'r Pwyllgor ar oblygiadau Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a'r blaenoriaethau allweddol sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Dywedodd mai amcan allweddol y Mesur oedd i gyrff cyhoeddus wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru a hynny'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Roedd y Mesur yn nodi '6 o dargedau lles':-

- Cymru ffyniannus (yr economi)
- Cymru wydn (yr amgylchedd)
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu.

Byddai disgwyl i bob corff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion lles gyda'r nod o sicrhau cyfraniad tuag at wireddu'r targedau hyn a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflawniadau.

Dywedodd yr Uwch Reolydd Partneriaethau y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol gyda thair lefel i'w aelodaeth h.y. Aelodau Statudol, Cyfranogwyr wedi'u Gwahodd a Phartneriaid Eraill. Ni fyddai pob un o'r partneriaid felly yn gyfartal yn y dyfodol a mater i'r Aelodau Statudol fyddai cyfrifoldebau statudol y mesur.

Byddai cyfrifoldeb hefyd i baratoi Cynllun Llesiant, i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl, gyda'r amserlen yn cyd-fynd ag amserlen etholiadau llywodraeth leol. Byddai disgwyl i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael cyngor gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru ac anfon copi i Weinidogion, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgorau Sgriwtini lleol. Rhagwelwyd y byddai proses sgriwtini'r Cynulliad Cenedlaethol oedd yn gysylltiedig â chyflwyno'r mesur yn parhau dros yr wythnosau nesaf gyda golwg ar dderbyn Caniatâd Brenhinol erbyn Ebrill 2015. Rhagwelwyd y byddai'r holl gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddyletswyddau Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o Ebrill 2016 er nad oedd manylion y cerrig milltir a oedd yn gysylltiedig â'r dyletswyddau yn y Ddeddf arfaethedig wedi eu cwblhau hyd yma.

Adroddodd yr Uwch Reolydd Partneriaeth ymhellach mai un o'r tasgau allweddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf fu cefnogi'r Bwrdd i gytuno ar nifer fechan o flaenoriaethau allweddol i'w darparu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2014 wedi cadarnhau'r blaenoriaethau allweddol oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith Anffurfiol ar 26 Ionawr 2015, ystyriwyd goblygiadau Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr argymhellion wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Byddai gweithredu'r Mesur yn her ariannol i awdurdodau lleol yn ystod y dirwasgiad economaidd;
- Roedd goblygiadau'r Mesur yn rhai pellgyrhaeddol ac yn cynnwys ystod eang o ddyletswyddau'r Cyngor ac roedd angen i Awdurdodau Lleol gadw i fyny â'r datblygiadau yng nghyswllt y mater hwn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi penderfyniad y Pwyllgor Gwaith Anffurfiol yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2015 i oedi gyda symud ymlaen gyda gweithredu gofynion datblygu cynaliadwy Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn dysgu o brofiadau rhai eraill (sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot ar gyfer mabwysiadwyr cynnar);**

- **Cadarnhau'r angen i barhau i godi ymwybyddiaeth fel rhan o baratoad y Cyngor ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd;**

- **Nodi anghenion y Mesur ar ddatblygu cynaliadwy ac yn arbennig rôl sgriwtineiddwyr yn y dyfodol;**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar ffrwd waith blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.**

**CAMAU GWEITHREDU : Adroddiadau diweddaru i'w cyflwyno i gyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini hwn yn y dyfodol ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Diweddariadau ar y Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol i'w darparu drwy sesiynau briffio misol wedi eu trefnu ar gyfer Aelodau Etholedig.**

**5 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Darparu Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn mewn perthynas â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Flynyddol.

Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol bod angen i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor hwn yn flynyddol i ddarparu trosolwg o weithgareddau dros y 12 mis blaenorol. Byddai hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyfarfod â'i hymrwymiadau dan Adrannau 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2006. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a'r newidiadau dilyniadol yn Neddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, Gwasanaeth Iechyd, Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i'r afael â'r rhaglen diogelwch cymunedol lleol.

Roedd y strwythur partneriaeth dwy Sir wedi bod mewn grym bellach am ddwy flynedd, ac yn eistedd o dan y ddau Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sirol.

Pwyllgor Ymgynghorol yw'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelwch Cymunedol bellach ac roedd wedi cytuno ar ei brif dasgau fel yr oeddent wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol bod cyfraddau'r troseddau oedd yn cael eu cofnodi yn parhau i ddisgyn. Ym Môn roedd 628 yn llai o droseddau wedi'u hadrodd (-19%) ac yng Ngwynedd 1493 yn llai (-20%). Roedd y gostyngiadau penodol hyn wedi cyfrannu at y ffigyrau :-

- 97 yn llai o droseddau trais yn erbyn y person, gostyngiad o 11%
- 55 yn llai o achosion byrgleriaeth annomestig, gostyngiad 25%
- 118 yn llai o ddigwyddiadau o ddwyn a delio gyda phethau sydd wedi eu dwyn, gostyngiad 15%.
- 66 yn llai o ddigwyddiadau yn ymwneud â chyffuriau, gostyngiad 32%.

Mae Cynllun Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn awr yn gynllun rhanbarthol, ac mae Cynllun Gogledd Cymru ar hyn o bryd ar ffurf drafft. Roedd ardaloedd blaenoriaeth wedi'u hamlygu yn yr adroddiad.

Dywedodd yr Arolygwr Mark Armstrong bod y gwaith partneriaeth gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi bod yn hollol hanfodol yn y gwaith o leihau trosedd yng Ngwynedd a Môn.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Mae gwaith y Swyddogion Cefnogi Heddlu wedi ei werthfawrogi'n fawr gan y cymunedau lleol;
- Nid oedd troseddau yn erbyn yr henoed wedi'u hamlygu yn yr adroddiad.
- Angen mynd i'r afael â phroblem pobl ifanc yn goryrru er mwyn gostwng nifer y damweiniau difrifol a marwolaethau.
- Yr effaith y bydd y bwriad i breifateiddio'r Gwasanaeth Prawf yn ei gael ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o safbwynt y gostyngiad mewn cefnogaeth i droseddwyr pan ddônt allan o'r carchar.
- Y cynnydd ym mhoblogaeth yr Ynys pan fydd y Wylfa newydd arfaethedig yn cael ei hadeiladu. Mynegwyd pryderon am yr hyn y byddai ei angen o ran delio gyda throseddau tebygol ar yr Ynys.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Os yn ymarferol, adroddiadau blynyddol yn y dyfodol i gynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â data dosbarthiad oed yng nghyswllt dioddefwyr troseddau ynghyd ag ystadegau ynglŷn â'r marwolaethau a achosir drwy yrru'n beryglus.**

**GWEITHREDU : Bod Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Partneriaeth a Sgriwtini yn 2016.**

## 6 CYNIGION GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH MEWN PERTHYNAS Â SICRHAU GWELLIANNAU I'R A5025 A PHRIFFYRDD ERAILL I HWYLUSO CYNIGION DATBLYGU PŴER NIWCLEAR HORIZON

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Amgylcheddol a Thechnegol yng nghyswllt y broses o drafod gyda Pŵer Niwclear Horizon y gwaith gwella ac adeiladu tebygol sydd ei angen ar briffordd yr A5025 a ffyrdd eraill er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd yn Wylfa.

Dywedodd y Pennaeth Amgylcheddol a Thechnegol bod Swyddogion wedi cael trafodaethau anffurfiol gyda Pŵer Niwclear Horizon dros yr 18 mis diwethaf ar nifer o faterion yn ymwneud â'r datblygiad yn Wylfa Newydd. Roedd y trafodaethau gyda'r Swyddogion wedi nodi nifer o faterion oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun symud ymlaen gyda chael caniatâd ar gyfer y gwaith hwn. Roedd hynny'n cynnwys dyluniad, cynllunio, caffael, ymgynghori a phrynu tir.

Nodwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Gwaith sydd i'w gynnal ar 16 Chwefror 2015.

Materion a godwyd gan Aelodau :-

- Mynegwyd pryderon nad oedd y briffordd o Gemaes i Amlwch wedi ei chynnwys ar gyfer ei gwella.
- Mae'n bwysig y bydd contractwyr yn seiliedig yng Ngogledd Cymru'n cael ei defnyddio ar gyfer gwaith gwella'r priffyrdd;
- Dylai diogelwch plant a rhieni sy'n cerdded i ysgolion lleol fod o'r pwysigrwydd mwyaf yn ystod y gwaith o wella'r priffyrdd.
- Dylid ystyried cyfleuster Parcio a Theithio i drosglwyddo gweithwyr i mewn ac allan o Wylfa newydd yn ystod y gwaith adeiladu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r argymhellion oedd ynddo i'w trafod yn y Pwyllgor Gwaith i'w gynnal ar 16 Mawrth 2015.**

**CAMAU GWEITHREDU : Derbyn adroddiad yn y man yn rhoi diweddariad ynglŷn â'r cynnydd yng nghyswllt y gwelliannau i'r A5025.**

## 7 CYLLIDEB BLYNYDDOEDD CYNNAR

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Addysg yng nghyswllt yr uchod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes) - yn dilyn trafodaethau y flwyddyn ddiwethaf ar Gyllideb y Blynyddoedd Cynnar, roedd y Cyngor wedi ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen i drafod y gyllideb mewn manylder gyda'r bwriad o gael cytundeb ar y ffordd ymlaen. Aelodau'r Grŵp oedd Aelodau Etholedig, cynrychiolwyr Mudiad Meithrin a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru, Prif Athrawon Ysgol Cynradd a Swyddogion yr Awdurdod. Cafwyd cytundeb yn dilyn nifer o gyfarfodydd ar lefel y gefnogaeth i'r Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r Awdurdod yn darparu cyfraniad tuag at gostau rhedeg a lleoliadau unigol er mwyn sicrhau y gellir darparu'r 10 awr yr wythnos statudol o addysg i blant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed hyd nes y byddant yn dechrau'r ysgol. Roedd yn cael ei gydnabod bod angen i'r Awdurdod newid y ffordd y mae'n cyfrannu tuag at y lleoliadau unigol gan fod yna wahaniaeth mawr o ran niferoedd. Yn hanesyddol, roedd lleoliadau llai, sef y rhai gyda hyd at 16 o blant o fewn oed statudol, yn derbyn cyllid yn seiliedig ar ddarparu dau aelod staff a chyfraniad tuag at brynu adnoddau. Roedd y rhai gyda'r niferoedd uchaf yn derbyn cyllid am aelod staff ychwanegol i bob 8 disgybl uwchben yr 16. Roedd y lleoliadau hyn hefyd yn derbyn cyfraniad uwch ar gyfer adnoddau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn dymuno diolch i'r Grŵp Tasg a Gorffen am ei waith gyda'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**CAMAU GWEITHREDU : Y bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod yr eitem yn y dyfodol.**

**8 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD NEU'R IS-GADEIRYDD**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Cynghorydd Carwyn Jones wedi mynychu'r cyfarfod o'r Bwrdd Ynys Fenter yn ddiweddar a nododd y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini ar y cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a gafwyd ar gyfer datblygu a chynnal prosiectau ym Môn.

**9 RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – y Rhaglen Waith ddrafft.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini ei fod wedi derbyn cais can y Cynghorydd Carwyn Jones i wahodd cynrychiolwyr o blith y datblygwyr ynni mawr sy'n bwriadu datblygu ar yr Ynys :-

- Adeilad Niwclear newydd Pŵer Niwclear Horizon yn Wylfa
- Uwchraddio rhwydwaith trawsgludo trydan y Grid Cenedlaethol
- Datblygiad hamdden a thai Land & Lakes yng Nghaergybi.
- Gwaith biomas Lateral Power yng Nghaergybi
- Digomisiynu Gorsaf Pŵer Niwclear Wylfa (Magnox)
- Arae Lanwol Marine Current Turbines oddi ar arfordir Gogledd Orllewin Môn.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith ddrafft a gwahodd Prif Weithredwr Land & Lakes (Ynys Môn) Cyf i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn i drafod y rhagolygon cyflogaeth fydd yn codi a'i weledigaeth economaidd ar gyfer y prosiect.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm

**Y CYNGHORYDD D. R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

## Llys Llewelyn -Aberffraw

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff 14 Atodlen 12 A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12 A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF-THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i’r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd/ There is a public interest in disclosure as:-<br><br><u>14</u><br>Gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd ynglyn a sut y mae’r Cyngor a Menter Môn Cyf yn delio ag asedau ac yn benodol Llys Llewelyn, Aberffraw / A better understanding by the public as to how the Council and Menter Môn Ltd deal with assets and specifically Llys Llywelyn, Aberffraw.</td><td>Y budd i’r cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br><u>14.</u><br>Atal gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno) rhag bod ar gael a fydd yn niweidio gallu'r Cyngor a Menter Môn Cyf i delio gyda Llys Llewelyn, Aberffraw ac asedau eraill / Prevent information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information) being made available which will prejudice the Council’s and Menter Môn Ltd ability to deal with Llys Llewelyn Aberffraw and other assets.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad - Mae budd i’r cyhoedd wrth gadw’r eithrad o bwys mwy na’r budd i’r cyhoedd wrth dategelu’r wybodaeth.<br>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweigh the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf 2015. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **7 Gorffennaf 2015** | Strategaeth Cefnogi Teleuodd | Sgriwtini o flaen penderfyniad | Ystafell Pwyllgor 1/2yp |
| | Adolygiad Gwasanaeth Diwylliant | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Enwebu Aelod i'r Panel Rhiant Corfforaethol | Monitro | |
| | | | |